**Yr Athro Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru

23 Awst 2018

Annwyl Gomisiynydd,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20**

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn ystod tymor yr hydref. Eleni, mae tri phwyllgor – y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – yn bwriadu cydweithio fel rhan o'r broses graffu.

Fel rhan o ymgynghoriad rhanddeiliaid y Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb, galwyd am fewnbwn gwell i'r broses gyllideb ddrafft o safbwynt plant a phobl ifanc. Galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd am ragor o waith craffu ar ansawdd asesiadau effaith.

Gan fod hyn yn cyd-fynd â materion a drafodwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan y tri Phwyllgor yn ein gwaith craffu cyllidebol priodol, byddwn yn cynnal cyfarfod ar y cyd ddydd Iau 15 Tachwedd i'w trafod ymhellach. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ wedi cytuno i roi tystiolaeth ar y diwrnod hwnnw, rhwng 14:15 a 15:15. Rhestrir rhai o'r themâu sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y sesiwn gyda Gweinidogion Cymru yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

**Er mwyn llywio ein gwaith, hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar brynhawn dydd Iau 15 Tachwedd, 13:30 – 14:15**. Caiff y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd ei wahodd i roi tystiolaeth ochr yn ochr â chi, gyda'r bwriad o drafod materion trawsbynciol, yn ogystal â materion sy'n benodol i'ch meysydd arbenigedd priodol. Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud ag asesu effaith y tu hwnt i gylch gwaith ein tri phwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn hon yn llywio gwaith craffu ar faterion cyllidebol trawsbynciol yn y dyfodol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Pwyllgorau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Committees@assembly.wales
0300 200 6565

Byddem yn croesawu papur ysgrifenedig byr gennych, gan amlinellu eich barn mewn perthynas â'r asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â chyllidebau drafft Llywodraeth Cymru. Hoffem ei gael erbyn **dydd Mercher 31 Hydref 2018 fan bellaf.**

Yn gywir,

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**ATODIAD – Themâu craffu dangosol ar gyfer y sesiwn bwyllgor ar y cyd ar asesiadau effaith cyllidebau drafft gyda Gweinidogion Cymru**

- **dull yr asesiad effaith integredig strategol** eleni;
- **gwelliannau penodol a wnaed i'r asesiad effaith integredig strategol** ers adolygiad 2016 o asesiadau effaith Llywodraeth Cymru;
- sut y llywiodd yr **Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol** y ffordd y cynhaliwyd yr asesiad effaith integredig strategol eleni;
- sut y mae **hawliau plant** wedi'u trafod a'u hasesu ar gyfer y gyllideb ddrafft hon, yn unol â dyletswydd sylw dyledus Llywodraeth Cymru i CCUHP (i gynnwys manylion am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â darparu asesiad annibynnol o'r effaith ar hawliau plant, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r rhesymeg sylfaenol am y penderfyniadau hynny);
- sut roedd **effaith benthyciadau Llywodraeth Cymru a phwerau treth incwm newydd** yn llywio'r asesiad effaith integredig strategol;
- sut y mae'r asesiad effaith integredig strategol yn dangos **effaith ariannol** penderfyniadau Llywodraeth Cymru;
- sut y cafodd **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** ynghyd ag **Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20**, a wnaeth argymhellion penodol ynghylch buddsoddi cyfalaf, effaith ar yr asesiad effaith integredig strategol eleni.